Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Amcanion strategol ar gyfer y Pumed Cynulliad

Yn ystod y Pumed Cynulliad, byddwn yn archwilio polisïau a gwasanaethau sy'n effeithio ar iechyd a lles corfforol a meddyliol ac iechyd a lles y cyhoedd yng Nghymru, gan gynnwys y system gofal cymdeithasol.

Wrth gynnal ein gwaith ymchwilio, byddwn yn ystyried pob menter yng nghyd-destun y canlynol:

- Ei heffaith ar anghydraddoldebau iechyd;
- I ba raddau y mae dulliau ataliol wedi'u defnyddio i wella iechyd a lles;
- Tystiolaeth o ymrwymiadau gwariant effeithiol ac effeithlon;
- Ei heffaith ar faterion sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol y gweithlu;
- Goblygiadau penderfyniad y DU i adael yr UE.

Wrth wneud hyn, byddwn yn canolbwyntio ar ganlyniadau, gan ystyried y gwerth y gall pob menter ei hychwanegu. Fel rhan o hyn, ar ôl cwblhau'n gwaith polisi a deddfwriaeth, byddwn yn ymgymryd â gwaith dilynol trylwyr i asesu'r cynnydd a wnaed o ran eu gweithredu.

Ein nod fydd bod yn llais dibynadwy ac awdurdodol yn ein maes pwnc, sbarduno newid a dylanwadu ar bolisi.

Byddwn yn fforwm ar gyfer trafodaeth gyhoeddus lle bydd modd rhannu gwybodaeth a phrofiad. Byddwn yn ystyried enghreifftiau o arfer gorau yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, ac yn annog pawb i'w rhannu'n effeithiol.

Rydym yn cydnabod y rôl bwysig sydd gan randdeiliaid, y gymdeithas ddinesig a'r cyhoedd yn gyffredinol yng Nghymru yn ein gwaith, a byddwn yn ymgysylltu'n ystyrlon ac yn rheolaidd â nhw er mwyn iddynt fedru cyfrannu at ein gwaith.